Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022

Rhagfyr 2022

1. Cefndir

1. Gosododd Llywodraeth y DU ddrafft o Reoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022[1] gerbron Senedd y DU ar 20 Hydref 2022.

2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ("darpariaeth gymwys").

3. Ar 21 Tachwedd, gosododd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ("y Gweinidog"), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm)[2] gerbron y Senedd ar gyfer y Rheoliadau, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.

4. Ysgrifennodd y Gweinidog i'n hysbysu ni a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am y Memorandwm.[3] Ymddiheurodd y Gweinidog am yr oedi cyn ei osod, a dywedodd y dylai Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol "fod wedi'i osod yn hytrach na'r Datganiad Ysgrifenedig" o dan Reol Sefydlog 30C a osodwyd ar 21 Hydref mewn perthynas â'r Rheoliadau.[4]

5. Gofynnodd y Gweinidog yn ei llythyr i'r ddau bwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 12 Rhagfyr:

> *"Byddwch yn dymuno bod yn ymwybodol bod y Rheoliadau drafft yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn Senedd y DU, ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 13 Rhagfyr. Yn yr achos hwn, felly, o ystyried yr oedi wrth osod y Memorandwm, nid oes digon o amser cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar gyfer cadw at y cyfnod adrodd 35 diwrnod. Ni allaf ond ymddiheuro*

[1] Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022

[2] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022

[3] Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 21 Tachwedd 2022

[4] Gweler WS-30C(6)016 - Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022. Tynnwyd y datganiad hwn yn ôl a chafodd ei ddisodli gan WS-30C(6)020 – Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022.

eto am hyn. O ganlyniad felly, os yw eich Pwyllgorau am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, gofynnwn i chi adrodd i'r Senedd erbyn 12 Rhagfyr fan bellaf os gwelwch yn dda."

6. Dywedodd y Gweinidog hefyd yn ei llythyr nad oedd yn bwriadu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch y Rheoliadau gan eu bod yn mynd i'r afael â "mân" ddiffygion sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE. Dywedodd y Gweinidog y canlynol hefyd:

"Mae RhS30A yn darparu y gall unrhyw Aelod o'r Senedd gyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar yr Offeryn Statudol hwn, ar ôl i'r Pwyllgorau perthnasol adrodd."

2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

7. Prif amcan y Rheoliadau yw diwygio cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, er mwyn sicrhau bod y cyfreithiau'n gweithredu'n effeithiol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

8. Mae'r Memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

"Mae'r offeryn hwn yn mynd i'r afael â mân ddiffygion sy'n gysylltiedig ag Ymadael â'r UE, diffygion pellach na ragwelwyd ar adeg ymadael â'r UE ac yn sicrhau gweithrediad cyfundrefn mewnforion ledled Prydain Fawr (GB). Byddai'n ymddangos yn briodol i un set o ddiwygiadau ledled Prydain Fawr gael eu gwneud gan fod angen iddynt weithio i'r DU gyfan, neu Brydain Fawr (lle mae rhyddid i symud), i sicrhau bod safonau cyffredin ac i leihau tarfu ar fasnachwyr, awdurdodau lleol, ac asiantaethau archwilio fel ei gilydd."[5]

9. Mae'r Rheoliadau y mae'r Memorandwm yn ymwneud â hwy yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a daw'r darpariaethau i rym ar 13 Rhagfyr 2022.

10. Mae paragraff 10 o'r Memorandwm yn nodi bod rhan 5, paragraff 20, o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth berthnasol "*sy'n gwneud mân ddiwygiad i adran 29 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964*".

11. Mae paragraffau 12 o'r Memorandwm yn esbonio pam, ym marn Llywodraeth Cymru, y mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth honno. Yn benodol, mae'r Memorandwm yn

[5]Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol: paragraff 8

dweud bod y Rheoliadau yn cynrychioli'r "cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru."

3. Trafodaeth y Pwyllgor

12. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2022.[6]

Ein barn ni

13. Rydym yn cydnabod esboniad y Gweinidog am yr oedi cyn cyflwyno'r Memorandwm.

14. Rydym yn fodlon ar y Memorandwm ond yn ystyried y dylai'r Gweinidog gyflwyno cynnig i geisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol yn y Rheoliadau.

Recommendation 1. Dylai'r Gweinidog gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 30A.10 i geisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol yn Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022.

15. Wrth ddod i'r farn hon, rydym wedi ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd, a fynegwyd mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru,[7] a'r farn a fynegwyd gan y Llywydd mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd.[8] Rydym wedi ysgrifennu ar y mater hwn at y Pwyllgor Busnes,[9] ac mae'r Llywydd wedi datgan ei bwriad i drafod y mater gyda'n Cadeirydd maes o law.[10]

[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022

[7] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llythyr at y Prif Weinidog, 6 Chwefror 2019; Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Bumed Senedd), Llythyr at y Prif Weinidog, 23 Hydref 2020

[8] Y Llywydd, Llythyr at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019

[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llythyr at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, 23 Tachwedd 2022

[10] Y Pwyllgor Busnes, 29 Tachwedd 2022, Cofnodion